Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llys Hywel
# Stryd Y Farchnad
# Hendy Gwyn Ar Daf
# Caerfyrddin
# Sir Gaerfyrddin
# SA34 0QB

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2013**

## Cyd-destun

Y mae Ysgol Llys Hywel wedi ei lleoli yn nhref fechan Hendy-gwyn yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin. Mae 116 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 19 o blant meithrin amser llawn. Daw cyfran helaeth o'r disgyblion o Hendy-gwyn ei hun.

Ar hyn o bryd, y mae gan tua 18% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol. Mae gan 30% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys nifer bach o ddisgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae rhan fwyaf y disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig, gydag ychydig o'r disgyblion o dras sipsi Roma neu dras Bwylaidd. Daw 29% o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg. Mae hon yn ysgol â dwy ffrwd ieithyddol, ond mae'r plant oed meithrin a derbyn i gyd yn cael eu haddysgu mewn dosbarth cyfrwng Cymraeg. Ym Mlwyddyn 1, mae'r disgyblion yn parhau â'u haddysg yn naill ai'r ffrwd Gymraeg neu'r ffrwd Saesneg. Mae tua hanner y disgyblion yn cael eu haddysgu yn y ffrwd Gymraeg ac yn dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

Mae bron y cyfan o'r disgyblion yn trosglwyddo yn unarddeg oed i Ysgol Dyffryn Taf, gyda niferoedd bach yn mynd i Ysgol Bro Myrddin.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yng Ngorffennaf 2007.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ar gytundeb dros dro ers Medi 2012, ond hefyd yn bennaeth ar Ysgol Talacharn. Mae hyn yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd yn arweinyddiaeth yr ysgol. Bydd y pennaeth yn gadael Ysgol Llys Hywel ar ddiwedd tymor yr haf i ddychwelyd i fod yn bennaeth llawn amser ar Ysgol Talacharn.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llys Hywel yn 2012-2013 yw £4,509. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yw £25,997 a'r lleiafswm yw £2,878. Mae Ysgol Llys Hywel yn yr ugeinfed safle o'r 108 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Ysgol Llys Hywel yn ddigonol gan fod:

- mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd clir yn eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2;
- yr addysgu yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gwaith yn llawer o'r gwersi;
- disgyblion yn elwa o'r rhaglenni olrhain cynnydd ac ymyrraeth ychwanegol sydd wedi eu cyflwyno i wella eu medrau darllen a rhifedd;
- safonau ymddygiad yn dda, gyda rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar agweddau cadarnhaol at eu gwaith ac yn awyddus i lwyddo;
- darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; a bod
- ansawdd y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg ar waelod y Cyfnod Sylfaen yn gryfder arwyddocaol.

Fodd bynnag:

- nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ym mhob agwedd ar eu medrau darllen ac ysgrifennu;
- nid yw llawer o'r disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn gwneud digon o gynnydd yn y Gymraeg;
- mae defnydd y disgyblion o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm yn gyfyng;
- mae diffyg cynllunio ar gyfer dilyniant yn y medrau yn effeithio ar y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud ar draws yr ysgol mewn rhai agweddau ar eu gwaith;
- yn lleiafrif y gwersi, mae meysydd pwysig i'w gwella yn yr addysgu a'r asesu; ac
- mae diffyg pwysig yn nhrefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu plant.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd bod:

- cynnydd arwyddocaol wedi ei wneud yn cyflwyno systemau ysgol-gyfan sy'n dechrau cael effaith glir ar ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniadau'r disgyblion;
- yr ysgol yn gwneud defnydd o ystod briodol o ffynonellau fel rhan o'i threfniadau hunan arfarnu; a bod
- blaenoriaethau priodol wedi pennu ar gyfer gwelliant pellach, gyda ffocws clir ar godi safonau.

Fodd bynnag:

- mae’r ansefydlogrwydd ar lefel arweinyddiaeth yr ysgol yn parhau, ac nid yw rôl cydlynwyr medrau’r ysgol wedi ei sefydlu’n llawn;
- nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer monitro gwersi a chraffu ar lyfrau wedi gwreiddio’n llawn; a
- nid yw swyddogaeth y corff llywodraethol o ran darparu her fel ‘cyfaill beirniadol’ wedi datblygu ddigon.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinyddiaeth yr ysgol yn cynnal ac adeiladu ar y gwelliannau sydd eisoes wedi eu cyflawni, a datblygu rôl cydlynwyr medrau’r ysgol

A2 Sicrhau bod disgyblion ar bob lefel gallu ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn llawn

A3 Codi safonau yn y Gymraeg yn y ffrwd Saesneg

A4 Gwella ansawdd yr addysgu a’r asesu

A5 Sicrhau bod trefniadau hunan arfarnu’r ysgol yn gwreiddio’n gadarn ac yn canolbwyntio ar nodi agweddau i’w gwella yn y safonau a chynnydd disgyblion yn eu gwersi a’u gwaith ysgrifenedig

A6 Datblygu gallu’r corff llywodraethol i weithredu fel cyfaill beirniadol

A7 Mynd i’r afael yn ddiymdroi â’r diffyg pwysig yn gysylltiedig â diogelu plant

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae datblygiad medrau llafar Cymraeg y plant ieuengaf yn y Cyfnod Sylfaen yn gryfder arwyddocaol. Daw'r disgyblion yn fuan i gynnig ymatebion yn ddigymell, gyda llawer ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn wirfoddol wrth siarad â'i gilydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd clir yn eu medrau llafar ac yn mynegi eu hunain yn hyderus ac â lefel gynyddol o gywirdeb. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau llafar Cymraeg ar draws y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, yn enwedig o ystyried eu cyflawniadau blaenorol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn medru darllen ar goedd yn ystyrlon gyda goslef briodol, ac yn gwneud defnydd da o'r llais i amrywio'r mynegiant. Er hynny, nid yw lleiafrif y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn darllen deunyddiau Cymraeg sydd yn rhoi digon o her iddynt. Mae disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu defnydd o fedrau ymchwilio. Nid yw'r cynnydd yng ngallu disgyblion i ymateb i ffuglen a thrafod agweddau ar yr hyn a ddarllenant yn datblygu cystal.

Mae canlyniadau profion darllen diweddaraf yr ysgol yn dangos bod gormod o'r disgyblion heb fod yn meddu ar fedrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â'r disgwyliadau o ystyried eu hoed. Fodd bynnag, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd clir yn eu medrau darllen ers cyflwyno'r rhaglenni llythrennedd ychwanegol yn y Gymraeg a'r Saesneg eleni. Mae'r disgyblion sydd yn derbyn ymyrraeth ychwanegol i wella medrau llythrennedd a rhifedd gwan hefyd yn gwneud cynnydd priodol.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu cynnar. Dônt i ysgrifennu brawddegau yn annibynnol, gan ddangos gafael gychwynnol ar atalnodi a sillafu rhan fwyaf y geiriau yn gywir. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn medru ysgrifennu i ystod o bwrpasau gan ddangos dealltwriaeth o nodweddion ffurfiau fel llythyron ac ysgrifennu cyfarwyddiadau. Er hynny, nid yw disgyblion o allu uwch yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ysgrifennu'n estynedig i ystod ehangach o bwrpasau, yn cynnwys ysgrifennu dychmygus a chreadigol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu llythyrau ac adroddiadau, a hefyd yn medru defnyddio geiriau allweddol i gyflwyno safbwyntiau gwahanol ar bynciau dadleuol. Maent yn defnyddio eu medrau ysgrifennu i gofnodi mewn pynciau eraill, gan ddangos cynnydd priodol o ran cywirdeb mynegiant. Gwnânt gynnydd priodol yn eu defnydd o eirfa a thermau. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd yn y gallu i ysgrifennu'n rhydd ac estynedig i ystod o bwrpasau mewn cyd-destunau ar draws y cwricwlwm, ynghyd â'r gallu i ysgrifennu darnau creadigol a dychmygus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn daclus a threfnus. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yng nghyfnod allweddol 2 yn gwella cywirdeb a chynnwys eu gwaith eu hunain drwy ddefnyddio medrau ail-ddrafftio.

Mae diffyg cynnydd ym medrau ysgrifennu Cymraeg disgyblion y ffrwd Saesneg ar draws yr ysgol yn ddiffyg arwyddocaol.

Nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu defnydd o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Roedd canlyniadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 ar y deilliant disgwyliedig yn is na'r disgwyliadau o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch, roedd perfformiad yr ysgol yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg ym meysydd dysgu datblygiad mathemategol a datblygiad personol, cymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, ond nid mewn iaith, yn enwedig iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi bod gan mwyaf o gwmpas cyfartaleddau'r teulu a Chymru dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae canlyniadau Cymraeg ail iaith, ysgrifennu Saesneg, ac ysgrifennu Cymraeg yn enwedig, wedi bod yn anwastad. Ar y lefel uwch, roedd canlyniadau 2012 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru ymhob pwnc, yn enwedig yn Saesneg ar ôl bod yn is dros gyfnod, yn enwedig yn 2011.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ginio am ddim, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel disgwyliedig a'r lefelau uwch wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf neu'r 50% isaf yn tua hanner y dangosyddion dros gyfnod.

Mae cyflawniadau bechgyn wedi bod yn arwyddocaol is na disgwyliadau yn y blynyddoedd diwethaf.

**Lles: Da**

Mae gan lawer o'r disgyblion ymwybyddiaeth dda o sut mae bwyta'n iach a gweithgareddau ffitrwydd yn eu helpu i gadw'n iach ac yn heini. Maent i gyd yn ymfalchïo ym mywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel.

Mae lefelau presenoldeb yr ysgol yn cymharu'n ffafriol dros gyfnod â chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Yn dilyn patrwm o welliant arwyddocaol dros y blynyddoedd diwethaf, mae presenoldeb bellach yn agos iawn i'r canolrif o ystyried lefelau cinio am ddim.

Mae'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at waith yn llawer o'r gwersi, ac yn gyffredinol yn ymroi i'r gweithgareddau dysgu ac yn gweithio'n gynhyrchiol. Mewn ychydig o'r gwersi, mae lleiafrif o ddisgyblion heb fod yn cyfranogi'n llawn, gyda hynny'n arwain, ar brydiau, at beth aflonyddwch sydd yn effeithio ar eu cynnydd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn cyfrannu'n briodol at broses gynllunio themâu gyda'u hathrawon, ond nid yw hyn wedi datblygu i'r un graddau yng

nghyfnod allweddol 2. Mae'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n briodol at waith yr ysgol. Bu disgyblion yr ysgol yn cyfrannu at y gwaith o lunio'r rheolau ysgol newydd yn dilyn eu gwaith ar gyfreithiau Hywel Dda.

Mae 'llysgenhadon efydd' yr ysgol yn meithrin medrau arwain drwy fod yn gyfrifol am glybiau iechyd a ffitrwydd yr ysgol. Mae'r disgyblion i gyd yn meithin hunan hyder yn gyhoeddus drwy gymryd rhan mewn cynyrchiadau a gwasanaethau yn flynyddol. Maent hefyd yn datblygu eu hymwybyddiaeth o'r gymuned ehangach yn briodol drwy fynychu digwyddiadau yn y gymuned leol, yn cynnwys cynnau goleuadau Nadolig a'r bererindod yn gysylltiedig â'r neges Gŵyl Dewi o'r Gadeirlan at Lywodraeth Cymru.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r profiadau dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn cynnig gweithgareddau ysgogol sy'n sicrhau cynnydd cyson yn y gwaith. Serch hynny, nid yw'r cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 2 yn rhoi digon o ystyriaeth i sicrhau dilyniant a pharhad ym medrau llythrennedd disgyblion ar wahanol lefelau o ran gallu. Nid yw'r disgyblion ar draws yr ysgol yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu ystod lawn o fedrau ysgrifennu.

Mae ystod profiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn gyfyng.

Mae'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg ar gyfer plant ieuengaf y Cyfnod Sylfaen yn gosod seiliau cadarn ar gyfer datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg. Mae mwyafrif y disgyblion yn trosglwyddo i'r ffrwd Gymraeg ym Mlwyddyn 1, sy'n caniatáu iddynt barhau i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Fodd bynnag, nid oes cynllunio digon manwl i sicrhau parhad yn natblygiad medrau iaith Gymraeg disgyblion yn y ffrwd Saesneg.

Mae cyfleoedd priodol i'r disgyblion ddysgu am draddodiadau a'r diwylliant Cymreig. Mae'r dimensiwn Cymreig hefyd yn nodwedd amlwg o'r profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft yr ymchwil i fywyd a gwaith Dylan Thomas, gwaith yn seiliedig ar gestyll Aberteifi a Chaeryw a'r astudiaeth o fywyd a gwaith Hywel Dda.

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o weithgareddau sy'n hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o faterion yn ymwneud â chynaladwyedd. Nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol yn y gwersi. Maent yn darparu cymorth priodol i'r disgyblion i sicrhau eu bod yn medru cwblhau'r gwaith ac yn cynnig modelau iaith addas. Mae'r cymorthyddion dosbarth yn gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at weithredu'r rhaglenni ar gyfer gwella medrau llythrennedd disgyblion.

Yn llawer o’r gwersi, mae athrawon yn rhannu nodau dysgu clir gyda’r disgyblion ac yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn gwybod sut i gyflawni’n dda. Yn y gwersi hyn, mae dilyniant o weithgareddau dysgu priodol yn sicrhau bod lefelau cymhelliant disgyblion yn cael eu cynnal. Hefyd, mae athrawon yn holi cwestiynau yn barhaus sy’n annog disgyblion i feddwl ac ymresymu a gwella eu dealltwriaeth o’r gwaith.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn rhoi digon o ystyriaeth i’r lefelau gwahanol o allu yn y dosbarth a dangos yn glir i’r disgyblion yr hyn i’w wneud i sicrhau eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Ar brydiau, mae gorddefnydd o dasgau ysgrifennu isel eu her a thaflenni gwaith yn llesteirio gallu disgyblion i gyflawni gystal ag y gallent wrth ysgrifennu’n estynedig.

Yn y ffrwd Saesneg, mae athrawon yn gwneud peth defnydd o’r Gymraeg wrth siarad â’r disgyblion. Er hynny, nid ydynt yn gwneud digon i gael y disgyblion eu hunain i ddefnyddio’r Gymraeg.

Mae’r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd ac, mewn lleiafrif o achosion, yn cynnig sylwadau defnyddiol i’w helpu i wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw rhan y disgyblion yn y broses asesu wedi datblygu’n gyson. Hefyd, mae gormod o anghysondeb yn y defnydd y mae athrawon yn ei wneud o feini prawf i helpu disgyblion wella safon eu gwaith.

Mae gan yr ysgol systemau asesu effeithiol i olrhain cynnydd y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Er hynny, nid yw’r agwedd hon wedi datblygu i'r un graddau yng nghyfnod allweddol 2.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae darpariaeth briodol i annog y disgyblion i gadw’n iach, gyda gweithgareddau fel y clwb gemau a’r clwb coginio yn codi ymwybyddiaeth am sut i fwyta’n iach a chadw’n heini. Mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd wythnosol i ddefnyddio cyfleusterau ffitrwydd newydd yn Ysgol Dyffryn Taf a chyfranogi yn y rhaglen ‘Mulitiskills’.

Yn sgil sesiynau cylch, mae disgyblion yn derbyn cyfleoedd priodol i ystyried materion moesol ac ysbrydol. Mae’r ysgol hefyd yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus, gyda gwobrau ‘marblis mewn jar’, ‘seren yr wythnos’ a ‘gwobr y pennaeth’ yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol ac ymddygiad da. Mae’r ysgol yn elwa o gymorth ystod o asiantaethau a swyddogion allanol ar gyfer lles disgyblion ag anghenion penodol.

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu wedi eu datblygu’n llawn.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir sy’n cael eu hadolygu’n rheolaidd. Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar ac mae ymyrraeth a chynhaliaeth effeithiol ar eu cyfer. Mae’r ymyrraeth hon yn cynnwys defnydd pwrpasol o staff, adnoddau ac amrywiaeth o gynlluniau i sicrhau’r cyfleoedd gorau posibl i bob disgybl ddatblygu i'w botensial llawn.

Mae’r modd y mae’r ysgol yn darparu cynhaliaeth ychwanegol i ddisgyblion â medrau sylfaenol gwan yn gryfder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus lle mae disgyblion yn dangos parch at ei gilydd ac at oedolion ac yn ymroi yn llawn i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae ganddi bolisïau a gweithdrefnau clir sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol, a chaiff disgyblion hawl gyfartal i'r holl ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol. Mae'r fenter ddiweddar i newid enw'r ysgol, ei logo a'i harwyddair, ynghyd â'r wisg ysgol newydd, wedi cael effaith arwyddocaol o ran ethos yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau i sicrhau bod y plant yn cael ystod briodol o brofiadau dysgu. Er bod gwaith cynnal a chadw i'w wneud ar yr adeiladau, mae'r adeilad yn cynnig digon o le ac mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol ohono. Mae'r ardal allanol yn ddeniadol ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Mae'r arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol ac yn y dosbarthiadau yn creu amgylchedd dysgu diddorol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth dros dro wedi darparu arweiniad cryf sydd wedi dechrau cael effaith gadarnhaol o ran gwella agweddau pwysig ar y ddarpariaeth, yn cynnwys safonau llythrennedd. Mae ffocws clir ar godi safonau a gwella lles disgyblion, gyda systemau priodol wedi eu cyflwyno, yn enwedig o ran olrhain cynnydd disgyblion a sicrhau ymyrraeth i fynd i'r afael â thangyflawniad. Mae nodau clir wedi eu pennu ar gyfer sicrhau gwelliannau pellach.

Nid yw rôl cydlynwyr medrau'r ysgol wedi ei datblygu'n llawn. O ganlyniad, nid yw staff â chyfrifoldebau ysgol-gyfan yn cyfrannu'n llawn i'r gwaith o sicrhau dilyniant ar draws yr ysgol a nodi blaenoriaethau gwella.

Mae'r corff llywodraethol yn cyfrannu'n briodol i sicrhau bod polisïau statudol yn cael eu diweddaru ac ar waith. Mae'r mentrau fel y 'teithiau dysgu' yn darparu cyfleoedd defnyddiol i godi ymwybyddiaeth y llywodraethwyr o'r gwaith yn y dosbarthiadau. Mae cyflwyniadau ar ddata perfformiad yr ysgol wedi dechrau gwella gwybodaeth y llywodraethwyr o sut mae perfformiad yn cymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid oes gan y llywodraethwyr ddigon o ddealltwriaeth yn deillio o ddata a systemau hunan arfarnu'r ysgol i godi cwestiynau am safonau a chyfrannu i'r gwaith o nodi blaenoriaethau.

Llwydda'r ysgol i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol drwy fynd i'r afael â chodi safonau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gwneud digon i fodloni'r flaenoriaeth genedlaethol o ran codi safonau yn y Gymraeg.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol amserlen briodol ar gyfer ei gweithgareddau hunan arfarnu. Mae trefniadau priodol wedi eu cyflwyno i gasglu tystiolaeth o ystod o ffynonellau, gan gynnwys dadansoddi data, monitro gwersi, craffu ar lyfrau a chasglu barn y staff,

llywodraethwyr a rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn yn cael eu gweithredu'n llawn hyd yma. Dechrau datblygu y mae rhan disgyblion yn y broses.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn nodi llawer o agweddau y mae angen eu gwella. Er bod y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys bwriadau priodol ar gyfer codi safonau, nid yw'r meini prawf ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn y bwriadau yn ddigon penodol a heriol.

Mae athrawon yr ysgol wedi elwa o'r cyfleoedd i ymweld ag ysgolion eraill yn lleol i arsylwi arfer dda. Mae'r cydweithio ag Ysgol Talacharn wedi rhoi sylw i agweddau fel dilynaint a pharhad mewn iaith a rhannu syniadau ar gyfer codi safonau llythrennedd bechgyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ymrwymiad clir i gydweithio gydag ystod briodol o bartneriaid, gyda'r bartneriaeth â'r rhieni a gofalwyr yn gryfder. Mae cylchlythyron rheolaidd, defnydd o negeseuon testun a gwefan yr ysgol yn hybu cyfathrebu clir ac yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Er mwyn sicrhau bod rhieni yn gallu rhoi cymorth cyson i'w plant, mae'r ysgol yn cynnal gweithdai defnyddiol iddynt ar agweddau fel llythrennedd.

Mae trefniadau cadarn yn eu lle gyda'r ysgol uwchradd sy'n derbyn y rhan fwyaf o'r disgyblion ar gyfer sicrhau parhad mewn gofal bugeiliol adeg trosglwyddo. Mae trefniadau addas ar waith ar gyfer cyd-safoni a chymedroli asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau defnyddiol gydag ystod o gyrff, sefydliadau a busnesau lleol. Mae'r bartneriaeth â chyngor y dref wedi arwain at nawdd gan y cyngor ar gyfer talu am y wisg ysgol newydd i bob disgybl.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon cymwys a phrofiadol ac mae'n gwneud defnydd priodol o arbenigeddau staff. Y mae'n manteisio'n llawn ar y cyswllt ag Ysgol Talacharn ar gyfer datblygiad staff, ac mae'r ysgol yn elwa'n fawr o'r trefniant o rannu cydlynydd rhifedd rhwng y ddwy ysgol. Caiff y staff gyfleoedd priodol i fynychu cyrsiau hyfforddi, yn cynnwys digwyddiadau i helpu codi safonau llythrennedd a rhifedd.

Mae trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff addysgu, sydd yn cynnwys pennu targedau priodol ar eu cyfer. Yn ogystal, mae trefniadau rheoli perfformiad yn weithredol ar gyfer staff ategol.

Mae tanwariant sylweddol wedi bod ar gyllideb yr ysgol dros sawl blwyddyn. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi lleihau'r tanwariant i lefel briodol. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn clustnodi gwariant priodol ar gyfer y blaenoriaethau.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y dangosydd Cyfnod Sylfaen yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru. Ym maes dysgu datblygiad personol, cymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, roedd perfformiad yr ysgol yn uwch na ffigurau’r teulu a Chymru. Fodd bynnag, yn y meysydd dysgu eraill, roedd perfformiad yn is na ffigurau’r teulu a Chymru, yn enwedig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn ei gosod yn y 25% uchaf ym maes dysgu datblygiad personol, cymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ond yn y 50% isaf neu’r 25% isaf yn y meysydd dysgu eraill.

Ar y deilliant uwch, roedd perfformiad yr ysgol yn 2012 yn cymharu’n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg ym meysydd dysgu datblygiad mathemategol a datblygiad personol ond nid mewn iaith, yn enwedig iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pynciau craidd, gan mwyaf, wedi bod o gwmpas ffigurau’r teulu a Chymru dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae patrwm tebyg yn y cyflawniadau ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg. Yn y Gymraeg ac mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae cyflawniadau dros gyfnod wedi bod ychydig yn uwch na chyfartaleddau’r teulu a Chymru. Fodd bynnag, mae cyflawniadau ‘r disgyblion mewn ysgrifennu wedi bod yn is na ffigurau’r teulu a Chymru mewn dwy o’r pum mlynedd ddiwethaf, yn enwedig yn y Gymraeg.

Mewn Cymraeg ail iaith, roedd perfformiad yr ysgol yn 2012 ar y lefel disgwyliedig neu uwch yn sylweddol is na ffigyrau’r teulu a Chymru yn 2012, ond yn uwch yn y flwyddyn flaenorol.

Ar y lefel uwch, roedd perfformiad yn 2012 yn uwch na chyfartaleddau’r teulu a Chymru ymhob pwnc, yn enwedig yn Saesneg, yn dilyn cyfnod o fod yn is na’r disgwyl, yn enwedig yn 2011.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ginio am ddim, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel disgwyliedig a’r lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn amrywiol, gan osod yr ysgol yn y 25% isaf neu’r 50% isaf yn tua hanner y dangosyddion dros gyfnod.

Yn 2012, roedd bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau’r merched a’r bechgyn ymhob dangosydd yng nghyfnod allweddol 2. Mae cyflawniadau’r bechgyn wedi bod yn gyson yn is na’r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer bechgyn dros y blynyddoedd diwethaf.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiaduron dysgwyr**

Cwblhawyd yr holiadur gan 53 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae cyfran yr ymatebion cadarnhaol gan mwyaf yn debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os yw'n gofidio neu'n gweld y gwaith yn anodd. Mae'r rhan fwyaf yn dweud bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Dywed bron yr holl ddisgyblion bod llawer o gyfleoedd i wneud ymarfer corff, bod yr ysgol yn eu dysgu i gadw'n iach ac yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn dweud bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith a bod ganddynt ddigon o offer, llyfrau a chyfrifiaduron.

Dywed rhan fwyaf y disgyblion fod plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Serch hynny, lleiafrif o'r disgyblion, yn cynnwys bron i hanner y merched, sy'n dweud bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac yn eu galluogi i wneud eu gwaith. Mae hyn yn arwyddocaol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Ymatebion i'r holiaduron rhieni/gofalwyr**

Cafodd yr holiadur ei gwblhau gan 38 o rieni. Mae cyfran yr ymatebion cadarnhaol gan mwyaf yn is na'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mae pob rhiant yn nodi i'w plant ymgartrefu'n dda adeg dechrau yn yr ysgol a bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol. Mae bron y cyfan yn nodi bod eu plant yn hoffi'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn dweud bod yr addysgu'n dda, bod eu plant yn gwneud cynnydd da a bod amrywiaeth dda o weithgareddau yn cynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn dweud bod staff yn trin eu plant yn deg a gyda pharch.

Dywed llawer o'r rhieni bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plant yn dysgu yn yr ysgol a bod eu plant yn derbyn cymorth priodol ar gyfer unrhyw anghenion unigol penodol. Mae llawer o'r rhieni yn nodi eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant a bron pob rhiant yn nodi bod yr ysgol yn annog eu plant i gadw'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae rhan fwyaf y rhieni yn teimlo'n gysurus i ofyn cwestiwn, gwneud awgrymiadau neu nodi problem, ac yn deall trefn gwyno'r ysgol. Mae llawer yn dweud bod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Dywed llawer o'r rhieni hefyd eu bod yn fodlon a'r ysgol a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Fodd bynnag, mae'r gyfran o atebion cadarnhaol yn llawer is na'r ffigurau cenedlaethol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iolo Dafydd | Arolygydd Cofnodol |
| David Davies | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Gwennol Ellis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Ward | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.